**Monitro Haf 2014-Hydref 2014**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| **Ysgolion Uwchradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

| **Ysgolion Cynradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiadau Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| Llanbedrog | √ | Da | Da | Da | √ | 5/14 | Da |
| Crud y Werin | √ | Da | Da | Da | √ | 7/14 | Da |
| Y Gorlan | | | | | √ | 5/14 | Da |
| Edern | √ | Da | Da | Da | √ | 6/14 | Da |
| Talsarnau | √ | Da | Da | Da | √ | 6/14 | Da |
| | | | | | | | |
| Dyffryn Ardudwy | | | | | | 9/14 | |
| Y Garreg | | | | | | 10/14 | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

| **Ysgolion Arbennig** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor Haf 2014 mae 5 ysgolion cynradd, 0 ysgol uwchradd ac 0 ysgol arbennig wedi cael eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 6 ysgol arall yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol.

**Ysgol Llanbedrog (Mai 2014)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol at

ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

**Ysgol Y Gorlan (Mai 2014) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amryw gyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd hefyd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd gofalu am rai llai ffodus na nhw.

**Ysgol Crud y Werin (Gorffennaf 2014) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn yn llwyddiannus iawn ar draws yr ysgol, gyda'r disgyblion yn elwa'n fawr o fod yn chwarae rhan arweiniol.

**Ysgol Edern (Mehefin 2014) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

**Ysgol Talsarnau (Mehefin 2014) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i ddangos parch at eraill. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.